Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Adnodd

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 16:00 ar 02/09/2022

Cynnwys

Tudalen

Gwneud Cais **3-5**

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd **6-9**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Adnodd **10-11**

Atodiad C: Y broses ddethol **12-13**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn gadeirydd o Adnodd. Dyma gyfle cyffrous i chwarae rhan yn cefnogi a chynnig cyfeiriad i gwmni sydd newydd ei sefydlu, gan helpu i sicrhau darpariaeth o adnoddau a deunyddiau addysgol dwyieithog ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau yng Nghymru. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl y cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Adnodd a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd 'Adnodd' ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon
Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	02 Medi 2022
Llunio rhestr fer:	wythnos yn dechrau 5 Medi 2022
Cyfweliadau:	wythnos yn dechrau 10 Hydref 2022

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, rhowch wybod i'r Uned Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Adnodd a rôl y Cadeirydd cysylltwch ag Ann Evans:

Ffôn: 03000253833
E-bost: ann.evans3@llyw.cymru
Neu, os yn cysylltu yn ystod 28 Gorffennaf – 9 Awst cysylltwch â
IsadranYGymraeg.WelshLanguageDivision@gov.wales

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Cadeirydd Adnodd

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â Bwrdd newydd sydd â chyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth o adnoddau dysgu ac addysgu Cymraeg a Saesneg i gefnogi'r cwricwlwm a chymwysterau yng Nghymru.

Arweiniad a chyfeiriad strategol

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw arwain y bwrdd a sicrhau ei effeithiolrwydd ym mhob agwedd o'i rôl. Dylai'r Cadeirydd hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a thrafod drwy hwyluso cyfraniad effeithiol holl aelodau'r bwrdd. Bydd cyfathrebu am gyfeiriad strategol y cwmni rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cymru, yn ystod busnes arferol, yn cael ei wneud drwy'r Cadeirydd, a bydd yn rhoi gwybod i'r aelodau eraill am drafodaethau o'r fath.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw gosod agenda'r Bwrdd a sicrhau bod amser digonol i drafodaeth ar bob pwynt agenda, ac yn benodol unrhyw faterion strategol.

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd berfformio ei ddyletswyddau, boed yn statudol, ymddiriedol neu gyfraith gyffredin, yn ffyddlon, yn effeithlon ac yn ddiwyd i safon sy'n gymesur â swyddogaethau'r rôl a'u gwybodaeth, sgiliau a'u profiad.

Byddant yn arfer eu pwerau yn ei rôl fel cyfarwyddwr cwmni gan roi sylw i rwymedigaethau perthnasol o dan y gyfraith a'r rheoliadau presennol, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a rheoliadau a deddfwriaeth gysylltiedig.

Rheoli rhanddeiliaid

Bydd y Cadeirydd yn gyfrwng allweddol i sicrhau ymgysylltiad effeithiol gyda rhanddeiliaid gan helpu i sicrhau perthynas dda i gyflawni'r gwaith.

Bydd y Cadeirydd yn sicrhau'r parhad hanfodol sydd ei angen wrth sefydlu a gweithredu'r cwmni newydd.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau pellach

Wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyfarwyddwr cwmni, bydd gan y Cadeirydd gyfrifoldeb am:

- ffurfio strategaethau Bwrdd Adnodd, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisïau a'r dulliau gweithredu a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a bod nodau, amcanion a diwylliant y cwmni yn cyd-fynd â meini prawf y llywodraeth megis Ffyniant i Bawb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- sicrhau bod Adnodd yn hyrwyddo ac yn gweld pwysigrwydd rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol i wireddu gweledigaeth gyffredinol, amcanion ac

allbynnau y cwmni;
- mentora'r tîm, yn benodol y Prif Weithredwr, i sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau, a sut y gallant wneud y defnydd gorau o'r Bwrdd;
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol perthnasol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru;
- hyrwyddo'r defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb; a
- cynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd a bod yn gyfrwng allweddol o ran rheoli ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid.

Yn ogystal bydd y Cadeirydd yn arwain ar:
- sicrhau ei fod ef neu hi, ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, yn derbyn hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion rheoli ariannol ac adrodd cyrff y sector cyhoeddus, ac ar y gwahaniaethau a all fodoli rhwng arferion y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y bwrdd gydbwysedd sgiliau addas i gyfeirio busnes y Cwmni, a chynghori Llywodraeth Cymru o unrhyw benodiadau i'r Bwrdd;
- hysbysu a cheisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur neu aelodaeth y Bwrdd;
- sicrhau bod cod ymddygiad ar gyfer Cyfarwyddwyr mewn lle, sy'n gyson a Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru; Cod Ymarfer Da (Chwefror 2017) fel sy'n berthnasol i Gyrff Cyhoeddus hyd braich o Lywodraeth Cymru; a
- adrodd i Lywodraeth Cymru, trwy Dîm Noddi'r Cwmni.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Bydd y Cadeirydd yn gallu cynnal safonau uchel o ran cywirdeb a gonestrwydd. Bydd hyn yn cynnwys sicrwydd llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol y cwmni wrth ystyried, hyrwyddo a diogelu rheoleidd-dra, priodoldeb, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd, risg, a gwerth am arian ar draws y sector cyhoeddus; a chyfrifyddu'n gywir ac yn dryloyw, ar gyfer sefyllfa ariannol a thrafodion y cwmni. Rhaid iddynt allu sicrhau safonau uchel o ran cywirdeb wrth reoli arian cyhoeddus.

Meini Prawf Hanfodol

- Arweinydd profiadol a diplomyddol
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a negodi cryf, gyda'r gallu i ddatblygu partneriaethau effeithiol a chynaliadwy
- Meddu ar brofiad, dealltwriaeth ac enghreifftiau ymarferol o weithio ym myd addysg neu'r gyhoeddi boed yn sector breifat neu gyhoeddus

- Meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chynhwysiad, gyda'r ymroddiad i arweinyddiaeth gynhwysol
- Gallu dangos y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol
- Anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth (egwyddorion Nolan)
- Dealltwriaeth dda o faterion llywodraethiant cwmni.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer y rôl yma. Dylech nodi eich sgiliau Cymraeg yn eich cais. Bydd cyfweliadau ar gyfer swyddi Cymraeg hanfodol yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	yn rhithiol ond gyda'r posibilrwydd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb yng mewn lleoliad cyfleus i holl aelodau'r bwrdd yn y dyfodol
Ymrwymiad Amser:	hyd at 5 diwrnod y mis
Hyd y penodiad:	penodiad o 3 blynedd yn y lle cyntaf.
Tâl:	£114 y dydd ynghyd â chostau teithio. Gellir hawlio costau eraill a ysgwyddir yn rhinwedd ymgymryd â gwaith ar ran y cwmni o fewn rheswm.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?
Dylent fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd.

Dylent fod yn ymwybodol bod Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Adnodd yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/1255/schedule/made/welsh

Gwrthdaro buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Adnodd, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Adnodd.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd dyladwy
Bydd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd fydd wedi eu sifftio i'w cyfweld. Bydd hyn yn cynnwys, ond ddim o anghenraid wedi ei gyfyngu i gyfryngau cymdeithasol a chwiliadau'r we. O ganlyniad gall y panel cyfweld ofyn cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiad o'r gwiriadau hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

Long HTML version - Code of conduct for B

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Adnodd

Cefndir
Arweiniodd y diffyg mewn adnoddau perthnasol, amserol a digonol i gefnogi cyflwyno'r cymwysterau diwygiedig yn 2015 at bryderon am y ddarpariaeth o adnoddau, yn y ddwy iaith, fyddai ar gael ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bu'r 'Uwchgynhadledd adnoddau Cymraeg a dwyieithog' a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2017 yn gyfle i edrych ar y materion yn ymwneud â darparu adnoddau perthnasol i Gymru a'i chwricwlwm newydd, yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu gweledigaeth a chytuno ar seilwaith ar gyfer cynhyrchu adnoddau addysgol dwyieithog yn y dyfodol.

Mae darparu deunyddiau addysgol pwrpasol, yn amserol ac o ansawdd uchel i gefnogi dysgu ac addysgu yn elfen hanfodol o sicrhau hygrededd y cwricwlwm, ac o ran sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol gan ymarferwyr i'w wireddu. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn arloesol, yn uchelgeisiol ac yn heriol ac felly mae'n gofyn am ddull gwahanol sydd yr un mor uchelgeisiol i ddatblygu adnoddau a deunyddiau ategol wrth iddo gael ei wreiddio dros y blynyddoedd i ddod. Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i argymhelliad y grŵp i sefydlu endid hyd braich gyda Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru.

Ymgorfforwyd Adnodd fel cwmni cyfyngedig trwy warant Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2022.

Mae nifer sylweddol o adnoddau'n cael eu comisiynu a'u datblygu ar hyn o bryd ond mae angen cydlynu hyn yn fwy strategol ac mae lle hefyd i ddefnyddio'r cyllidebau ac arbenigedd sydd ar gael yn genedlaethol yn fwy effeithiol. Heb broses strategol genedlaethol, gellir dyblygu ymdrechion, ni sicrheir cydraddoldeb yn y ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac nid yw'r holl adnoddau'n mynd drwy'r un broses o ran sicrhau ansawdd.

Bydd y cwmni hwn yn rhoi cyfleoedd i ran ddeiliaid ar draws y sectorau i gydweithio, rhannu arbenigedd a phrofiad a datblygu gallu ysgolion ac ymarferwyr i greu adnoddau sy'n cefnogi eu cwricwlwm lleol. Bydd yn wasanaeth amlwg i droi ato, fydd yn hwyluso cyd-awduro rhwng athrawon a rhan ddeiliaid eraill, gan sicrhau fod talent yn cael ei gydnabod, ei feithrin a'i ddatblygu. Bydd yn clymu gyda gwaith y Rhwydwaith Cenedlaethol o weithredu'r cwricwlwm ac yn sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion ac ethos y cwricwlwm newydd, a'u bod yn cefnogi rôl ysgolion ac ymarferwyr fel dylunwyr cwricwlwm. Bydd yn buddsoddi hefyd mewn sgiliau a chapasiti yn y sector cyhoeddi, gan sicrhau cydlynu a chydweithio.

Gweledigaeth Adnodd

> Galluogi dysgwyr, ymarferwyr a rhieni/gofalwyr yng Nghymru i gael mynediad at adnoddau addysgol a deunyddiau ategol o ansawdd uchel, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i gefnogi dysgu ac addysgu Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau.
>
> *Byddwn yn*:

- Sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol pwrpasol, o ansawdd uchel ac yn amserol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi'u cyhoeddi ar yr un pryd i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau
- Darparu trosolwg strategol o'r ddarpariaeth a chomisiynu adnoddau gan sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol yn ymateb i'r anghenion a nodwyd gan y sector addysg
- Hwyluso cydweithio agosach ar draws sectorau er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyd-awduro a manteisio i'r eithaf ar arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau
- Darparu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau, er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu datblygu yn unol ag ethos ac egwyddorion craidd Cwricwlwm i Gymru, a'u bod yn addas i bwrpas
- Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a chapasiti mewn creu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru
- Sicrhau gwerth am arian, gan wneud y defnydd gorau o'r gyllideb a'r adnoddau
- Cryfhau effeithiolrwydd hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth a'r defnydd o adnoddau.

Rôl y Bwrdd

Yn ychwanegol i bwerau a dyletswyddau'r cyfarwyddwyr fel y'i nodir yn Neddf Cwmnïau 2006, yr Erthyglau Cwmni, a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, rôl y Bwrdd yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol; datblygu a gweithredu'r nodau ac amcanion strategol yn unol â'r diben cyffredinol;
- gweithio gyda Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu strategaethau i gwrdd â'r amcanion;
- sicrhau bod y cwmni yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- monitro perfformiad a diweddaru Llywodraeth Cymru o unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol neu gyrhaeddiad targedau, ac o unrhyw gamau angenrheidiol i ddelio gydag unrhyw newidiadau;
- sicrhau bod y cwmni yn ystyried cyfle cyfartal ac yn cymryd i ystyriaeth ganllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru pan yn cymeradwyo polisïau ac yn gwneud penderfyniadau;
- sicrhau bod trefniadau effeithiol mewn lle i roi sicrwydd ar lywodraethu, rheolaeth ariannol a risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, archwiliadau a rheolaethau mewnol yn unol â'r gofynion statudol a rheoliadol perthnasol a, lle bo'n berthnasol, codau ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r sector; a
- hyrwyddo egwyddorion Nolan o fywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonest ac arweinyddiaeth.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Owain Lloyd ac fe fydd hefyd yn cynnwys Bethan Webb, Rosemary Jones a Craig Stephenson fel aelodau annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Medi 2022 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad yn ystod Hydref 2022. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd, ond fe roddir ystyriaeth i gyfweliad rhithiol pe bae amgylchiadau yn mynnu hynny.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Adnodd, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.
Hefyd gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
G / 08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.